# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Mydentist Tonypandy, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Dyddiad yr arolygiad: 4 Gorffennaf 2017

Dyddiad cyhoeddi: 5 Hydref 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



Digidol ISBN 978-1-78859-366-3



© Hawlfraint y Goron 2017

## Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o’n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 8

   Ansawdd profiad y claf ........ 9

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 13

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 19

4. Beth sydd nesaf? ........ 22

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 23

   Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 24

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 25

   Atodiad C – Cynllun gwella ........ 26

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.**

# Ein diben

**Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu'n agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol ar sail yr hyn rydym yn ei weld**
- **Cydweithredol: rydym yn adeiladu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull o weithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Mynegi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliannau drwy adrodd a rhannu arferion da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisïau, safonau ac arferion.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Mydentist Tonypandy yn 49-51 Stryd Dunraven, Tonypandy, CF40 1AL, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, ar 4 Gorffennaf 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygwr AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld rhagor o fanylion am sut rydym yn cynnal archwiliadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion. Roedd y practis yn lân ac yn daclus ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn daclus ac wedi'u cyflenwi'n ddigonol.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y claf, gan ddarparu cyfleoedd i'r cleifion roi adborth. Caiff y canlyniadau eu dadansoddi'n rheolaidd a'u defnyddio gan staff i sicrhau y darperir gwasanaethau o safon uchel.

Roedd systemau ar waith i gasglu unrhyw gwynion a chanmoliaeth a'r wybodaeth yn cael ei dadansoddi'n rheolaidd i nodi unrhyw themâu.

Roedd gweithdrefnau rheoli heintiau wedi'u cysoni i'r canllawiau angenrheidiol a dulliau archwilio. Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau rheolaidd o brosesau dadheintio a'r offer yn digwydd.

Gwnaethom argymell rhai gwelliannau ynglŷn â nodiadau cleifion, yn benodol mwy o fanylion wrth gofnodi hanes cymdeithasol a sgrinio canser. Mae angen adolygu'r prosesau ar gyfer tynnu radiograffau oherwydd materion ystumiadau/aliniad delwedd a welsom ac mae angen adolygu pa mor aml mae radiograffau yn cael eu tynnu yn unol â chanllawiau.

Mae angen i bob deintydd gwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a dylid cadw tystiolaeth o hyn ar ffeil.

Dyma'r hyn a welsom oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth a gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a dderbyniwyd.

- Canfuom dystiolaeth fod systemau effeithiol ar waith i gynorthwyo’r gwaith cyffredin o reoli ac arwain y practis.
- Roedd y tîm staff yn ymddangos yn hapus iawn yn eu rolau, a gydag ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.
- Roedd cyfleusterau clinigol yn cynnwys digon o offer ac roeddent yn amlwg yn lân, yn daclus ac yn drefnus.
- Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio Pelydrau-X yn ddiogel.
- Roedd offerynnau deintyddol yn cael eu golchi a'u sterileiddio’n briodol.
- Roedd systemau ar gyfer llywodraethu a monitro ansawdd y gwasanaeth yn erbyn gofynion y rheoliadau ar waith.

Dyma’r hyn rydym yn argymell y gallai’r gwasanaeth ei wella:

- Mae angen system er mwyn i gleifion allu cyflwyno adborth ysgrifenedig yn y practis a fydd yn cefnogi'r trefniadau presennol.
- Mae angen i bob deintydd gwblhau hyfforddiant cyfoes ar amddiffyn plant ac oedolion sy’n agored i niwed.
- Mae angen gwella cofnodion cleifion, gan gofnodi mwy o fanylion am hanes cymdeithasol a sgrinio canser yn benodol, ac mae angen i’r practis ddangos bod y claf a’r deintydd wedi darllen/diweddaru’r hanes meddygol.
- Mae angen adolygu problemau sy’n ymwneud ag aliniad radiograffau a gweithredu yn unol â’r canlyniadau. Mae angen sefydlu pa mor aml y dylid tynnu radiograffau yn unol â’r canllawiau cyfredol.
- Mae angen gweithredu system adolygu cymheiriaid ar gyfer staff clinigol.

Gweler Atodiad C am restr lawn o’r argymhellion.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Mydentist Tonypandy yn darparu gwasanaethau i gleifion yn Nhonypandy a chymunedau cyfagos. Mae’r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys pum deintydd (gyda deintydd ychwanegol i ddechrau yn ystod y mis nesaf), un hylenydd, naw nyrs ddeintyddol, tri aelod o staff y dderbynfa, ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu ystod o wasanaethau deintyddol y GIG a phreifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Yn gyffredinol, canfuwyd fod y practis hwn yn gweithio'n galed i ddarparu profiad o ansawdd uchel i'w boblogaeth o gleifion. Gwelsom wybodaeth berthnasol yn cael ei harddangos yn y man aros ac roedd yr adborth a gawsom drwy holiaduron AGIC yn cadarnhau bod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth maent yn ei dderbyn.

Cefnogwyd y practis gan systemau cyfrifiadurol a sicrhaodd fod cwynion a sylwadau yn cael eu dal yn gyson a'u dadansoddi gan y brif swyddfa. Gwnaethom argymell bod systemau adborth ychwanegol yn cael eu cyflwyno i sicrhau bod pob claf yn cael cyfle i roi adborth/sylwadau.

Gofynnwyd i'r practis ystyried ei boblogaeth o gleifion er mwyn sicrhau bod cyfleusterau megis y toiledau cyhoeddus yn hygyrch ar gyfer y cleifion hynny â phroblemau symudedd a/neu ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion i gael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o ddeg. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae'n wasanaeth da ac yn rhedeg i safon dda"*
>
> *"I weld yn iawn fel y mae"*

### Cadw'n iach

Roedd gwybodaeth am hybu iechyd ar gael yn y mannau aros, gan gynnwys taflenni gwybodaeth a phosteri ynglŷn â gwahanol fathau o driniaethau a gwybodaeth ataliol. Nodwyd bod rhai posteri yn cynnwys y wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Hefyd roedd sgriniau teledu yn yr ardal aros yn darparu gwybodaeth i gleifion gan gynnwys gwybodaeth ataliol ac am wahanol driniaethau sydd ar gael yn y practis.

Roedd rhestrau prisiau yn cael eu harddangos yn y man aros am ffioedd y GIG a chostau triniaeth breifat.

Roedd arwydd 'dim ysmygu' yn cael ei arddangos yn y dderbynfa, a gadarnhaodd y pwyslais a roddwyd ar gydymffurfio â deddfwriaeth mangreoedd di-fwg.

## Gofal ag urddas

Gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal mewn modd urddasol a pharchus. Gwelsom fod lle i staff gael sgyrsiau gyda chleifion yn breifat, i ffwrdd oddi wrth gleifion eraill os oedd angen. Clywsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Roedd adborth gan gleifion a lenwodd ein holiaduron yn gadarnhaol iawn. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn cael eu trin gyda pharch pan oeddent yn ymweld â’r practis.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiaduron AGIC ei fod yn cael digon o wybodaeth am ei driniaeth. Cytunodd pawb eu bod yn ymwneud cymaint ag y maen nhw’n ei ddymuno yn unrhyw benderfyniadau a wneir am eu triniaeth unigol.

Dywedodd pob claf wrthym fod y tîm deintyddol wedi eu helpu i ddeall yr holl opsiynau sydd ar gael pan oedd angen triniaeth arnynt.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion fod cost y driniaeth yn glir iddynt cyn derbyn eu triniaeth, a dywedodd y mwyafrif o gleifion wrthym hefyd eu bod yn deall sut y cyfrifwyd cost eu triniaeth.

### Cyfathrebu’n effeithiol

Roedd peth gwybodaeth cleifion yn cael ei harddangos yn yr ardal aros yn Gymraeg a Saesneg. Ni nododd unrhyw gleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC eu bod yn siaradwyr Cymraeg, ond roedd yr holl ymatebwyr yn dweud eu bod yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol.

Dywedodd staff wrthym fod taflenni gwybodaeth practis newydd wedi cael eu harchebu a bydd y rhain yn cynnwys gwybodaeth am y tîm, oriau agor a'r gwasanaethau a ddarperir.

## Gofal amserol

Gwelsom fod y practis yn ceisio sicrhau fod cleifion yn cael eu gweld mewn modd amserol. Dywedodd staff wrthym os bydd y deintydd yn rhedeg yn hwyr eu bod yn gwneud yn siŵr bod y cleifion yn cael gwybod.

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar ofal deintyddol y tu allan i oriau. Darparwyd rhif ffôn cyswllt mewn argyfwng ar gyfer defnydd cleifion ar neges peiriant ateb y practis a'i arddangos ar ddrws y fynedfa, fel y gallai cleifion gael mynediad at ofal brys.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd adborth gan gleifion a lenwodd ein holiaduron fod y tîm deintyddol wedi trafod gyda nhw sut i gadw eu cegau a'u dannedd yn iach.

Cadarnhaodd pob un o'r ymatebion gan gleifion fod y tîm deintyddol yn helpu cleifion i ddeall yr holl opsiynau sydd ar gael pan oedd angen triniaeth ac roeddent yn ymwneud cymaint ag y dymunent mewn unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth.

### Hawliau pobl

Nodwyd fod gan y practis bolisi cydraddoldeb pwrpasol ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn cael mynediad at yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Roedd mynediad i'r practis yn hygyrch i'r rheini sydd â phroblemau symudedd, gyda man aros/derbynfa cynllun agored mawr, ac roedd rhai ystafelloedd triniaeth wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod.

Roedd toiledau cyhoeddus ar gael ar y llawr gwaelod ond, ar adeg ein hymweliad, nid oedd arwyddion ar gyfer y rhain yn amlwg. Roedd yr amwynderau yn lân ac yn darparu cyfleusterau golchi a sychu dwylo; fodd bynnag, roeddent yn anaddas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a'r cleifion hynny sydd â phroblemau symudedd, oherwydd y ciwbiclau bach a diffyg rheiliau llaw. Trafodom hyn gyda'r staff ar adeg ein hymweliad ac fe'n hysbyswyd bod yr adeilad wedi ei addasu cymaint â phosibl i gynorthwyo cleifion.

### Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis bolisi a gweithdrefn gwyno ar waith. Roedd gweithdrefnau ar wahân yn cael eu harddangos yn y man aros i gleifion y GIG a chleifion

preifat a nodwyd fod y wybodaeth yn rhoi amserlenni ymateb i gleifion a oedd yn unol â 'Gweithio i Wella' ar gyfer gweithdrefnau'r GIG a'r rheoliadau ar gyfer cleifion preifat. Roedd y gweithdrefnau yn cynnwys manylion sefydliadau amgen y gallai cleifion gysylltu gyda nhw pe byddent yn codi cwyn.

Roedd systemau ar waith i gofnodi, monitro ac ymateb i unrhyw gwynion sy'n cael eu derbyn gan y practis. Roedd y system gwynion (a elwir yn 'Clarity') yn gysylltiedig â'r brif swyddfa, felly roedd gan y sefydliad drosolwg o'r wybodaeth sy'n cael ei derbyn. Dywedwyd wrthym y dadansoddwyd gwybodaeth yn aml i helpu i nodi unrhyw themâu cwynion cyffredin, a byddai'r rhain yn cael eu trafod gyda'r staff trwy gyfarfodydd tîm.

Roedd gan y practis system ar waith i gael adborth/barn cleifion am y gwasanaeth. Ar adeg ein hymweliad, byddai cleifion gyda rhifau ffôn symudol yn derbyn arolwg i'w gwblhau ac i raddio eu profiad. Cyflwynir yr ymatebion i'r brif swyddfa a darperir dadansoddiad ar gyfer y practis i weld y meysydd lle maent yn gwneud yn dda a'r meysydd efallai y bydd angen iddynt eu gwella.

Nid oedd system ar waith i gleifion ddarparu adborth ysgrifenedig yn y practis felly gwnaethom argymell bod y practis yn ymchwilio i'r math hwn o gyfleuster i sicrhau bod pob claf yn cael cyfle i ddarparu adborth/sylwadau.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i systemau adborth cleifion ychwanegol gael eu rhoi ar waith fel bod cleifion yn cael cyfle i ddarparu adborth/sylwadau ysgrifenedig a chyflwyno'r rhain yn y practis.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelwyd fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles staff a chleifion. Gwelsom dystiolaeth o gontractau amrywiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau yn ddiogel ac mewn cyflwr da.

Roedd gweithdrefnau rheoli heintiau yn cydymffurfio â'r canllawiau angenrheidiol ac offer archwilio. Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau rheolaidd o'r prosesau dadheintio ac offer yn digwydd.

Gwnaethom argymell rhai gwelliannau ynglŷn â nodiadau cleifion, yn benodol mwy o fanylion wrth gofnodi hanes cymdeithasol a sgrinio canser. Mae angen adolygu'r prosesau ar gyfer tynnu radiograffau oherwydd problemau ystumiadau/aliniad delwedd a welsom ac mae angen adolygu pa mor aml mae radiograffau yn cael eu tynnu yn unol â chanllawiau.

Mae angen i bob deintydd gwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a dylid cadw tystiolaeth o hyn ar ffeil.

### Gofal diogel

Nid oedd unrhyw faterion sicrwydd ar frys a nodwyd yn ystod yr ymweliad arolygu hwn.

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelwyd fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff oedd yn gweithio yn y practis, a'r cleifion oedd yn ymweld.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal er mwyn helpu i sicrhau defnydd diogel o offer trydanol bach yn y practis.

Roedd contract ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Gwelsom wastraff peryglus yn cael ei storio'n briodol. Roedd trefniadau gyda'r cyngor lleol ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff cartref).

Roedd yr adeilad yn adeilad dau lawr gyda mwyafrif o gyfleusterau cleifion ar y llawr gwaelod. Roedd yr ail lawr yn gartref i'r ystafelloedd deintyddol ychwanegol, ystafell yr hylenydd ac ardaloedd staff. Roedd yr adeilad yn amlwg yn cael ei gynnal yn fewnol ac yn allanol, ac roedd yr holl ardaloedd o fewn y practis yn lân ac yn daclus. Roedd toiledau cyhoeddus ar gael ond nid oedd unrhyw arwydd yn yr ystafell aros i ddangos y lleoliad, a dywedwyd hyn wrth y staff ar adeg ein hymweliad.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol o amgylch y practis a gwelsom eu bod wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen adolygu'r arwyddion ar gyfer y toiled cyhoeddus er mwyn sicrhau y gall cleifion ddod o hyd iddo.

### Atal a rheoli heintiau

Fe wnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau (a elwir fel arall yn dadheintio). Roedd ein harsylwadau o'r broses hon yn foddhaol. Roedd enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Roedd yr offer a ddefnyddir ar gyfer glanhau a sterileiddio offer yn amlwg mewn cyflwr da
- Offerynnau yn cael eu storio'n briodol ac yn ddyddiedig
- Argaeledd cyfarpar diogelu personol i ddiogelu staff rhag anaf a/neu haint
- Sinc bwrpasol ar gyfer golchi dwylo

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau wedi ei gynnal ym mis Mehefin 2017 gan ddefnyddio offeryn archwilio sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[1] Rydym yn cydnabod hyn fel arfer da oherwydd y cynnwys cynhwysfawr mae'r archwiliad yn ei gynnwys.

Roedd gan y practis raglen cynnal a chadw ddyddiol ar gyfer gwirio offer sterileiddio. Er enghraifft, roedd llyfr log ar gael ar gyfer pob awtoclaf a gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau dechrau a diwedd y dydd yn digwydd.

Ar adeg ein hymweliad, nodwyd nad oedd gan y peiriannau awtoclaf gofnodwyr data i gofnodi eu pwysedd a thymheredd. Tra oedd y staff yn cofnodi'r wybodaeth hon, awgrymwyd y byddai cofnodwyr data yn helpu i wella'r broses hon ar gyfer staff.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ddelio ag argyfyngau (cleifion); roedd cyfarpar dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Gwelsom gofnodion i ddangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddelio ag argyfyngau meddygol a sut i berfformio dadebru cardio-anadlol. Roedd polisi dadebru ar waith.

Roedd gan y practis swyddogion cymorth cyntaf penodedig.

Gwelwyd bod cyffuriau brys oedd yn cael eu cadw yn y practis yn cael eu storio'n briodol er hwylustod mynediad mewn argyfwng. Roedd gan y practis system i ddangos fod gwiriadau'n cael eu cynnal i wirio a newid cyffuriau a chwistrellau oedd wedi pasio eu dyddiad dod i ben, yn unol â safonau a osodwyd gan y Cyngor Dadebru (DU).[2]

---

[1] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

[2] Mae'r Cyngor Dadebru (DU) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sydd yn berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at arbed bywyd drwy addysg, hyfforddiant, ymchwil a chydweithio.

## Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl

Gwelwyd fod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd polisïau diogelu ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed ar waith.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau yn eu lle i staff godi unrhyw bryderon am y gwasanaethau oedd yn cael eu cynnig i gleifion. Nodwyd bod yr holl nyrsys deintyddol wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Dangosodd cofnodion ar gyfer deintyddion fod eu hyfforddiant wedi dod i ben, neu nid oedd unrhyw dystysgrifau ar ffeil i gadarnhau bod hyfforddiant diogelu wedi'i gynnal. Codwyd hyn gyda'r staff yn ystod yr ymweliad a chawsom gadarnhad y byddai'r holl ddeintyddion yn cwblhau yr hyfforddiant hwn fel mater o frys, er mwyn cydymffurfio â gofynion eu cofrestriad proffesiynol a datblygiad proffesiynol parhaus gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dywedodd y practis wrthym fod gwiriadau cyn cyflogi unrhyw aelodau newydd o staff yn cael eu cynnal cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd gan bob aelod o staff dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith, ond gwnaethom argymell bod y rhain yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn gyfredol oherwydd roedd rhai tystysgrifau yno ers blynyddoedd lawer.

| |
|---|
| Yr hyn y mae angen ei wella Mae angen i bob deintydd gwblhau hyfforddiant cyfoes ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Mae angen i dystiolaeth o hyfforddiant gael ei chadw ar ffeil yn y practis a dylid rhoi cadarnhad i AGIC fod hyn wedi'i gwblhau. Mae angen cynnal adolygiad o dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o staff yn unol â rheoliadau cyfredol a pholisi'r practis i sicrhau bod tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hadnewyddu yn unol â'r rhain. |

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol yn y practis a gwelwyd eu bod yn cynnwys offer priodol ar gyfer sicrhau diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Nodwyd fod yr ystafelloedd triniaeth yn drefnus iawn i helpu'r tîm weithio'n effeithlon a bod systemau da ar waith i wirio dyddiadau'r deunyddiau sy'n cael eu storio yn yr ystafelloedd triniaeth. Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn amlwg yn lân ac mewn cyflwr da ac roedd yr holl loriau ac arwynebau gwaith wedi'u selio ar yr ymylon er mwyn sicrhau y dilynir gweithdrefnau rheoli heintiau.

Roedd yr holl offer radiolegol yn cael eu cynnal a'u cadw ac mewn cyflwr gweithio da. Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel a bod tystiolaeth o

hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio cyfoes i'r holl staff clinigol. Roedd y llythyr hysbysu at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â diogelwch radiolegol ar ffeil, gan gadarnhau bod y practis wedi cofrestru fel sy'n ofynnol gyda'r sefydliad hwn.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld fod archwiliadau perthnasol wedi'u cwblhau neu eu trefnu gan y practis.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

O drafodaethau gyda staff, dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw system adolygu cymheiriaid ffurfiol rhwng staff clinigol. System adolygu cymheiriaid yw gwerthusiad o waith proffesiynol gan eraill yn yr un maes. Mae'r dull hwn yn gymorth wrth gynnal safonau ansawdd a gwella perfformiad lle bo'n berthnasol. Gwnaethom argymell y gweithredir system adolygu cymheiriaid i gyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion.

| Yr hyn y mae angen ei wella |
| --- |
| Mae angen rhoi system gwerthuso gwaith clinigol proffesiynol (adolygiad gan gymheiriaid) ar waith i helpu i gynnal a gwella safonau gofal o ansawdd i gleifion. |

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis system o gofnodion cyfrifiadurol ar waith a dywedwyd wrthym am y trefniadau sydd ar waith i sicrhau fod y system yn cael ei chadw'n rheolaidd i sicrhau bod cofnodion yn ddiogel ac yn cydymffurfio â pholisïau diogelu data'r practis.

### Cadw cofnodion

Adolygwyd sampl o gofnodion pymtheg o gleifion ac, ar y cyfan, roedd tystiolaeth bod y practis yn gyffredinol yn cadw cofnodion clinigol da, gan ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i sicrhau diogelwch a lles cleifion. Fodd bynnag, nodwyd bod angen i fwy o fanylion gael eu cofnodi mewn perthynas â hanes cymdeithasol a sgrinio canser.

O'r cofnodion a adolygwyd gennym, nid oedd hanes meddygol yn cael ei ddiweddaru yn unol â pholisi'r practis.

Nodwyd problemau wrth adolygu radiograffau cleifion. Nodwyd bod cyfiawnhad cyfyngedig yn cael ei gofnodi ar rai nodiadau cleifion ac nad oedd gan gofnodion eraill unrhyw dystiolaeth fod pelydrau-X wedi'u cynnal ar gyfer gweithdrefnau y dylai fod angen pelydr-X ar eu cyfer - yn benodol, nid oedd gan claf â sgôr archwiliad periodontol sylfaenol [3] o dri belydr-X ar ffeil. Awgrymwyd bod y practis yn sefydlu pa mor aml y dylid cynnal pelydrau-X yn unol â chanllawiau'r Gyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol (DU). Roedd tystiolaeth o ddelweddau pelydr-X wedi'u haflunio ac fe wnaethom argymell bod y practis yn ymgymryd ag archwiliad i nodi unrhyw broblemau.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen gwneud y gwelliannau canlynol mewn perthynas â nodiadau cleifion:

- Mae angen cofnodi mwy o fanylion mewn perthynas â hanes cymdeithasol a sgrinio canser.
- Mae angen i'r practis ddangos tystiolaeth bod y claf a'r deintydd wedi darllen/diweddaru hanes meddygol.
- Mae angen archwilio'r problemau sy'n ymwneud ag aliniad radiograffau/delweddau wedi'u haflunio a gweithredu yn unol â'r canfyddiadau.
- Sefydlu pa mor aml y dylid tynnu radiograffau yn unol â chanllawiau a chofnodi cyfiawnhad manylach.

[3] Mae archwiliad periodontol sylfaenol yn archwiliad clinigol o'r periodontiwm (deintgig). Mae'r deintydd yn cymryd dyfais mesur fach a, thrwy brocio'r deintgig yn ysgafn, gall weld cyflwr deintgig y cleifion ac os yw clefyd y deintgig yn bresennol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Canfuwyd dystiolaeth o systemau a phrosesau ar waith sy'n sicrhau bod y practis a'r staff yn cael eu cefnogi a'u bod wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Roedd ystod o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith ac roedd systemau i sefydlu, hyfforddi a chefnogi staff.

Roedd staff yn y broses o sicrhau bod yr holl wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol ac archebwyd arwyddion newydd ar gyfer y practis fel bod cleifion yn gwybod pa ddeintyddion sydd ar gael yn y practis.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Mydentist Tonypandy wedi bod yn darparu gwasanaethau yn ei safle presennol ers 2015.

Penodwyd rheolwr y practis yn ddiweddar ond roedd tystiolaeth ei fod yn cael ei gefnogi yn ei rôl a bod systemau ar waith i sicrhau fod y practis yn bodloni ac yn cyflawni'r safonau a ddisgwylir.

Gwelsom fod perthynas dda ymysg y tîm staff a rhyngweithio da gyda'r cleifion. Roedd staff yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban a dywedasant wrthym eu bod yn hyderus yn codi unrhyw faterion neu bryderon yn uniongyrchol gyda'r rheolwr practis, rheolwr ardal neu'r corff priodol os oes angen.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Roedd pob aelod o staff wedi ymrwymo i ddarparu gofal o safon uchel ar gyfer ei gleifion, ac ategwyd hyn gan ystod o bolisïau a gweithdrefnau. Gwelsom rywfaint o dystiolaeth sy'n dangos fod staff wedi llofnodi rhai polisïau a gweithdrefnau i gadarnhau eu bod wedi eu darllen ac yn deall eu cyfrifoldebau. Gwnaethom argymell bod y weithdrefn o staff yn llofnodi'r holl bolisïau a gweithdrefnau yn amlwg ar gyfer holl ddogfennau oherwydd y materion a nodwyd gennym ynglŷn â hanes meddygol, lle nad oedd polisi'r practis yn cael ei ddilyn o ran ei ddiweddaru a'i gydlofnodi.

Cyhoeddir yr holl bolisïau a gweithdrefnau gan y brif swyddfa ac maent ar gael yn electronig. Roedd y dogfennau a adolygwyd i gyd yn gopïau papur a nodwyd fod y dyddiadau adolygu a restrir ar daflen rheoli fersiwn wedi dod i ben ar rhai dogfennau. Os yw copïau papur o'r polisïau a gweithdrefnau yn cael eu defnyddio gan y practis, mae'n hanfodol ei fod yn sicrhau y cedwir y dogfennau diweddaraf fel bod staff yn cael mynediad at wybodaeth berthnasol/bresennol. Felly, rydym yn argymell bod pob copi papur o'r polisïau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir yn y practis yn cael ei adolygu i sicrhau mai ef yw'r polisi/gweithdrefn ddiweddaraf.

Roedd proses ymsefydlu ar waith ar gyfer newydd-ddyfodiaid. Cadarnhaodd y staff fod nyrsys deintyddol asiantaeth wedi eu defnyddio yn y gorffennol a gwelsom dystiolaeth o ba wybodaeth y mae ar y practis ei hangen i fodloni ei hun bod gan yr unigolion y gwiriadau, profiad a hyfforddiant angenrheidiol yn eu lle i gyflawni gofynion y practis. Cadarnhaodd y staff fod staff asiantaeth yn derbyn hyfforddiant sefydlu, ond nid oedd hyn yn cael ei gofnodi. Argymhellwyd felly bod y cyfnod ymsefydlu ar gyfer staff asiantaeth yn cael ei gofnodi a'i lofnodi gan yr unigolion fel cofnod o'r cynnwys a gwmpesir.

Gwelsom fod pob aelod o staff wedi manteisio ar amrywiaeth o hyfforddiant, gan fodloni ei ofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Fodd bynnag, fel y crybwyllwyd yn adran diogelu'r adroddiad hwn, ar adeg ein hymweliad nid oedd gan y deintyddion dystiolaeth fod eu hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn gyfredol. Trafodwyd hyn gyda'r staff yn ystod yr ymweliad a gwnaethom argymell y rhoddir sylw i hyn ar frys a darparu cadarnhad o'i gwblhau i AGIC.

Gwelsom gofnodion sy'n ymwneud â statws imiwneiddio Hepatitis B ar gyfer yr holl staff clinigol sy'n gweithio yn y practis.

Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd staff wedi digwydd ac y dylid eu cynnal yn fisol yn unol â gweithdrefnau Mydentist. Fodd bynnag, oherwydd y newid diweddar mewn rheolwr practis, nid oedd cyfarfod wedi bod ers mis Ebrill 2017. Roedd templedi ar gael ar gyfer agenda'r cyfarfod tîm, a oedd wedi cael eu poblogi ymlaen llaw gyda phynciau trafod. Dywedwyd wrthym fod amserlen newydd ar gyfer cyfarfodydd tîm yn mynd i gael ei dyfeisio a'i harddangos yn ganolog i staff gael ei gweld.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff (lle roedd hyn yn berthnasol) wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd tystysgrifau AGIC y deintyddion yn cael eu harddangos fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a gwelsom gadarnhad o yswiriant indemniad.

Gwelsom fod y practis yn arddangos ei fanylion cyswllt mewn argyfwng ac amseroedd agor y practis y tu allan i fynedfa'r safle. Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion wedi'u harchebu yn ddiweddar ac roedd y practis yn disgwyl i'r arwyddion newydd gyrraedd.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

Mae angen adolygiad o gopïau papur y polisïau a gweithdrefnau sy'n cael eu cadw yn y practis i sicrhau mai hwy yw'r fersiynau diweddaraf.

Rhaid i'r holl staff asiantaeth fynd trwy broses sefydlu ysgrifenedig a dylai hon gael ei llofnodi gan yr holl bartïon fel tystiolaeth bod y broses wedi'i chwblhau.

# 4. Beth sydd nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon sydd angen sylw ar unwaith yn ystod ein harolygiad, sy'n gofyn am gamau gweithredu gan y gwasanaeth, mae’r rhain yn cael eu nodi yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau’r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon sydd angen sylw ar unwaith mewn perthynas â diogelwch cleifion, lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maent yn eu cymryd i roi sylw i'r meysydd hyn

Dylai’r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gyntunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, ceir rhybudd cyn arolygiadau o bractisau deintyddol. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at ddeuddeg wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr practisau ar ddiwedd yr arolygiad, a hynny mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut y mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Mae unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi ei gofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau proffesiynol a chanllawiau perthnasol eraill fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon ar unwaith yn yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

### Gwasanaeth: Rhowch enw

### Dyddiad yr arolygiad: Noder y dyddiad

Mae'r tabl isod yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw beth oedd yn gofyn am sicrwydd ar unwaith yn yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Swydd:

### Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Mydentist Tonypandy

## Dyddiad yr arolygiad: 4 Gorffennaf 2017

Mae'r tabl isod yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Mae angen i systemau adborth cleifion ychwanegol gael eu rhoi ar waith fel bod cleifion yn cael cyfle i ddarparu adborth/sylwadau ysgrifenedig a chyflwyno'r rhain yn y practis.<br><br>*Safon y Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2.1* | 6.3 Gwrando a dysgu o adborth | Mae ffurflenni adborth bellach ar waith yn y practis. Rydym yn gweithio ar flwch adborth o fewn y cwmni. | Marchnata a Rheolwr y Practis | Cwblhawyd |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Mae angen adolygu'r arwyddion ar gyfer y toiled cyhoeddus er mwyn sicrhau y gall cleifion ddod o hyd iddo. | 3.2 Cyfathrebu | Mae arwyddion ar gyfer toiledau wedi'u harchebu ac yn aros i gael eu danfon. | Rheolwr y Practis a'r Pennaeth Nyrsio | 31 Gorffennaf 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| *Safon y Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.6 ac 1.9* | | | | |
| Mae angen i bob deintydd gwblhau hyfforddiant cyfoes ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Mae angen i dystiolaeth o hyfforddiant gael ei chadw ar ffeil yn y practis a dylid rhoi cadarnhad i AGIC fod hyn wedi'i gwblhau.<br><br>*Safon y Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.3.3 ac 8.5* | 2.7 Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl<br><br>7.1 Gweithlu | Mae'r holl glinigwyr wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac rydym yn aros i dystysgrifau gael eu cyflwyno. | Clinigwyr a Rheolwr y Practis | Cwblhawyd |
| Mae angen cynnal adolygiad o dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o staff yn unol â rheoliadau cyfredol a pholisi'r practis i sicrhau bod tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hadnewyddu yn unol â'r rhain. | 7.1 Gweithlu<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2008 | Mae holl dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u prosesu a'u derbyn gan aelod o staff, ac mae pob un wedi'i ffeilio mewn ffeil bersonol. | Rheolwr y Practis | Cwblhawyd |
| Mae angen rhoi system gwerthuso gwaith clinigol proffesiynol (adolygiad gan gymheiriaid) ar waith i helpu i gynnal a gwella safonau gofal o ansawdd i gleifion. | 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi | Bydd adolygiadau gan gymheiriaid yn cael eu gweithredu yn y cyfarfod staff nesaf. | Clinigwyr / Rheolwr y Practis | 31 Gorffennaf |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Cam gweithredu’r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Mae angen gwneud y gwelliannau canlynol mewn perthynas â nodiadau cleifion:<br>☐ Mae angen cofnodi mwy o fanylion mewn perthynas â hanes cymdeithasol a sgrinio canser.<br>☐ Mae angen i’r practis ddangos tystiolaeth bod y claf a'r deintydd wedi darllen/diweddaru hanes meddygol.<br>☐ Mae angen archwilio problemau yn ymwneud ag aliniad radiograffau/delweddau wedi’u haflunio a gweithredu yn unol â’r canfyddiadau.<br>☐ Sefydlu pa mor aml y dylid radiograffau yn cael eu tynnu yn unol â chanllawiau a chofnodi cyfiawnhad manylach.<br>*Safon y Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4* | 3.5 Cadw cofnodion | Sesiynau un i un gyda chlinigwyr i drafod cymryd nodiadau yn ogystal â thrafod hyn yn ein cyfarfod staff.<br>Gweithredir ar archwiliadau o ffeiliau.<br>Bydd clinigwyr yn cael un i un gyda’n cynghorydd clinigol / rheolwr gwasanaethau corfforaethol.<br>Bydd clinigwyr yn archwilio radiograffau ei gilydd. | Rheolwr y Practis / Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol | Diwedd Awst 2017 |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Mae angen cynnal adolygiad o gopïau papur y polisïau a gweithdrefnau sy’n cael eu cadw yn y practis i sicrhau mai hwy yw’r fersiynau | Llywodraethu, arweinyddiaeth | Mae’r holl bolisïau wedi eu diweddaru. | Pennaeth Nyrsio | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Cam gweithredu’r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| diweddaraf. | ac atebolrwydd | | | |
| Rhaid i’r holl staff asiantaeth fynd trwy broses sefydlu ysgrifenedig a dylai hon gael ei llofnodi gan yr holl bartïon fel tystiolaeth bod y broses wedi'i chwblhau. | 7.1 Gweithlu | Mae rhestr wirio ar gyfer y broses sefydlu ysgrifenedig bellach ar waith a bydd yn cael ei defnyddio gyda phob aelod o staff asiantaeth. | Rheolwr y Practis | Cwblhawyd |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**